Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mehefin 2021



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


## Negeseuon Allweddol

Y Cyd-destun 4

Y Prif Ganfyddiadau 4

Ffeithiau Allweddol 7

## Prif adroddiad

Sut mae'r rhaglen wedi'i sefydlu 8

Sut mae'r rhaglen yn perfformio? 12

Pa ffactorau sydd wedi effeithio ar weithredu'r rhaglen hyd yma? 18

Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd yn y dyfodol? 21

## Atodiadau

1 Ein hymagwedd a'n dulliau archwilio 27

2 Brechlynnau COVID-19 y DU a brynwyd a'u statws ar 1 Mehefin 2021 29

3 Trefn blaenoriaeth brechu Llywodraeth Cymru (ar sail argymhelliad y JVCI) 30

# Negeseuon allweddol

## Y Cyd-destun

1 Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar bawb. Mae’r rhaglen frechu yn offeryn strategol allweddol i frwydro yn erbyn y feirws a helpu i ailagor yr economi a’r gymdeithas ehangach.

2 Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw prynu a chyflenwi’r brechlynnau. Llywodraeth Cymru a GIG Cymru sy’n gyfrifol am y rhaglen frechu yng Nghymru.

3 Yn yr adroddiad hwn ystyrir gweithrediad y rhaglen frechu yng Nghymru. Trafodir ffurf y rhaglen, ei pherfformiad, y ffactorau sydd wedi effeithio ar weithrediad hyd yma, a’r heriau a’r cyfleoedd o’n blaenau yn y dyfodol. Yn Atodiad 1 ceir disgrifiad o’n hymagwedd a’n dulliau archwilio.

4 Mae llawer o frechlynnau’n cael eu datblygu drwy’r byd, ac mae llywodraeth y DU wedi llofnodi contractau ag wyth darparydd fferyllol mawr er mwyn cyflenwi brechlynnau. (Atodiad 2). Ar adeg ein gwaith maes, roedd tri brechlyn wedi’u cymeradwyo gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA): Pfizer-BioNTech, Rhydychen-AstraZenecaa Moderna. Mae angen rhoi dau ddos o bob brechlyn er mwyn sicrhau eu bod ar eu mwyaf effeithiol.

## Y Prif Ganfyddiadau

5 At ei gilydd, mae’r rhaglen wedi cael ei chyflwyno’n gyflym iawn, gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol ac o’r DU yn cydweithio i frechu cyfran sylweddol o’r boblogaeth sy’n wynebu’r risg fwyaf. Wrth lunio’r adroddiad hwn, cyfraddau brechu Cymru oedd yr uchaf o blith pedair cenedl y DU, ac roedd y cyfraddau hefyd ymhlith yr uchaf drwy’r byd. Mae’r cerrig milltir yn strategaeth frechu Llywodraeth Cymru wedi bod yn ysgogiad cryf i yrru’r rhaglen yn ei blaen. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd ei cherrig milltir mewn pryd.

6 Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu canllawiau blaenoriaethu'r DU gan y Cydbwyllgor Brechu ac Imiwneiddio (JCVI). Mae grŵp cenedlaethol yng Nghymru yn rhoi arweiniad ychwanegol lle bo angen eglurhad pellach ynghylch blaenoriaethu. Dilynwyd y canllawiau ar y cyfan, ond bu'r broses o ganfod pobl oddi mewn i rai o'r naw o grwpiau â blaenoriaeth (**Atodiad 3**) yn gymhleth.

7 Mae'r sefydliadau sydd wedi bod yn ymwneud â gweithredu'r rhaglen wedi gweithio'n dda i sefydlu ystod o fodelau brechu sy'n gwneud y defnydd gorau o'r brechlynnau sydd ar gael, a hefyd yn cynnig cyfleoedd i frechu'n nes at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

8 Hyd yma, mae'r lefelau sy'n derbyn brechlyn yn uchel ar y cyfan, er bod y lefelau hynny'n is ymhlith rhai grwpiau ethnig ac yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Ceir pryderon cynyddol hefyd ynghylch pobl nad ydynt yn cyrraedd apwyntiadau sydd wedi'u trefnu, er bod byrddau iechyd hyd yma wedi gallu sicrhau bod cyn lleied o frechlynnau'n cael eu gwastraffu ag sy'n bosibl.

9 Y ddibyniaeth ar y gadwyn gyflenwi ryngwladol yw'r ffactor pwysicaf sy'n effeithio ar weithrediad y rhaglen. Ychydig o stoc a gedwir yng Nghymru, a hynny'n bennaf er mwyn caniatáu ar gyfer ail ddosau ac i gyflenwi safleoedd yn y tymor byr. Mae hyn yn golygu y gall diffygion yn y cyflenwad gael effaith ddifrifol ar gyflymder gweithredu'r rhaglen. Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth gynyddol o lefelau'r cyflenwadau fydd ar gael yn y dyfodol yn galluogi'r byrddau iechyd i reoli'r broses o alw unigolion yn effeithiol.

10 Yn y tymor byr, mae'r gweithlu sy'n cefnogi'r rhaglen frechu wedi bod yn bodloni'r gofynion a osodwyd arno, ac mae llawer o staff wedi bod yn gweithio uwchlaw a thu hwnt i'w dyletswydd. Mae'n annhebygol y bydd holl ail ddosau'r rhaglen gyfredol wedi'u cwblhau tan fis Medi 2021, ac mae rhaglen o frechiadau atgyfnerthu yn cael ei thrafod ar gyfer yr hydref. Ni fydd hyn yn cynnig rhyw lawer o seibiant i staff brechu allweddol mewn amgylchedd lle mae'n hanfodol sicrhau gwytnwch y gweithlu.

11 Mewn arsylwadau cynnar gan bartneriaid milwrol nodwyd bod rhai safleoedd yn fwy effeithlon nag eraill. Mae'n bosibl na fydd rhai safleoedd brechu ar gael yn y misoedd nesaf, wrth i sefydliadau partner ystyried ailagor dros yr haf.

12 Wrth i Gymru barhau i ganolbwyntio ar gyflawni yn erbyn cerrig milltir presennol, mae angen i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru nawr ddatblygu cynllun tymor hwy ar gyfer gweithredu'r rhaglen frechu. Mae angen i hyn gynnwys modelau cynaliadwy ar gyfer y gweithlu, a all ymateb i'r cyflenwad, ond ymateb hefyd i ofynion wrth i wasanaethau eraill ailgychwyn.

13 Mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r gofynion tymor hwy o ran adeiladau i gefnogi rhaglen atgyfnerthu'r hydref, gyda ffocws ar sicrhau bod modelau brechu yn gost-effeithiol. Mae angen cynnal strategaethau i sicrhau cyn lleied o wastraff ag sy'n bosibl, a gweithredu mwy i annog pobl i dderbyn brechiad wrth i'r rhaglen droi ei golygon at y boblogaeth sy'n weddill.

14 Yn fwy cyffredinol, ceir llawer o wersi i'w dysgu yn sgil y dull cadarnhaol a ddefnyddiwyd i weithredu'r rhaglen frechu hyd yma. Dylai Llywodraeth Cymru a GIG Cymru fod yn ceisio cymhwyso hynny i strategaethau imiwneiddio ehangach a chyflawniad rhaglenni eraill.

> Mae Cymru wedi cymryd camau mawr ymlaen gyda'i rhaglen frechu COVID-19. Mae cerrig milltir allweddol ar gyfer grwpiau blaenoriaeth wedi'u bodloni ac mae'r rhaglen yn parhau'n gyflym gyda chyfran sylweddol o boblogaeth Cymru bellach wedi'i brechu. Mae hyn yn gyflawniad aruthrol ac yn dyst i waith caled ac ymrwymiad yr holl unigolion a sefydliadau sydd wedi bod yn rhan o'r broses o gyflwyno'r brechlyn hyd yma.
>
> Fodd bynnag, mae dal gwaith i'w wneud. Mae angen cynllun tymor hwy sy'n symud y tu hwnt i'r cerrig milltir presennol ac yn ystyried materion allweddol megis gwydnwch y gweithlu brechu, gwybodaeth sy'n esblygu am ddiogelwch brechlynnau, yr angen am ddosau atgyfnerthu, a chynnal cyfraddau defnyddio da - yn enwedig yn y grwpiau hynny sydd wedi bod braidd yn betrus wrth dderbyn eu brechiadau.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



# Ffeithiau allweddol

**3.3 miliwn**

o frechlynnau wedi'u rhoi yng Nghymru

**0.4%**

Canran yr holl frechlynnau a ystyriwyd yn anaddas i'w defnyddio

**91.5%**

Canran yr 1.68 miliwn yn y grwpiau blaenoriaeth 'sy'n wynebu risg' sydd wedi derbyn dos cyntaf

**£29.4 miliwn**

Costau ar gyfer 2020-21 (heb gynnwys costau adleoli staff na chost y brechlynnau)

**84.4%**

Canran y 2.66 miliwn o oedolion cymwys sydd wedi derbyn dos cyntaf

**66.1%**

Canran y 1.68 miliwn yn y grwpiau blaenoriaeth 'sy'n wynebu risg' sydd wedi derbyn ail ddos

## Mae brechlynnau'n cael eu rhoi yn y safleoedd canlynol:

**54** o ganolfannau brechu torfol

**346** o feddygfeydd teulu

**30** o leoliadau ysbyty

**11** fferyllfa

**18** o unedau tîm symudol

Ar ddiwedd Mai 2021

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru

# Prif adroddiad

## Sut mae'r rhaglen wedi'i sefydlu

15 Mae partneriaid y sector cyhoeddus ledled y DU wedi cydweithio ers dechrau'r pandemig i archwilio'r potensial am frechlyn yn erbyn COVID-19. Cafodd y rhaglen yng Nghymru ei sefydlu'n wreiddiol ym mis Mehefin 2020 fel bo modd sefydlu seilwaith priodol cyn y byddai unrhyw frechlynnau'n barod i'w defnyddio.

16 Mae'r rhaglen yn seiliedig ar yr egwyddor o ymreolaeth leol er mwyn darparu'r brechlyn drwy'r byrddau iechyd. Caiff y polisi a'r arweiniad ynghylch cyflenwi eu cydgysylltu'n genedlaethol:

a arweiniodd Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) llywodraeth y DU drefniadau'r DU gyfan ar gyfer ymchwilio i'r cyflenwad cenedlaethol o frechlynnau, a phrynu a chydgysylltu'r cyflenwad hwnnw, [1]gan weithio gyda Thasglu Brechlynnau'r DU. Mae'r cyfrifoldeb dros Dasglu'r Brechlyn bellach wedi'i rannu rhwng BEIS ac Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU. Bydd swyddogion o Lywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Thasglu'r Brechlyn i symleiddio'r broses o gyflenwi'r brechlyn, a rhagweld unrhyw broblemau a allai godi.

b mae Llywodraeth Cymru  yn arwain y gwaith o ddarparu'r brechlyn yng Nghymru. Datblygodd Strategaeth Frechu genedlaethol i Gymru[2] a ffurfio strwythur rhaglen genedlaethol (gan gynnwys Byrddau Rhanddeiliaid a Gweithredu a grŵp cyflawni gweithredol). Mae'r Grŵp Cynghori a Blaenoriaethu Clinigol Brechu (VCAP), yn ystyried datblygiadau clinigol mewn brechu yn erbyn haint COVID-19. Mae'r grŵp yn cynghori'r rhaglen a'r partneriaid ar weithredu'r rhaglen frechu genedlaethol, gan ddehongli'r blaenoriaethau fel yr amlinellwyd gan y JCVI ar gyfer cyd-destun Cymru. Gyda'i gilydd, mae'r grwpiau cenedlaethol hyn yn darparu polisi ac arweiniad, cymorth, adnoddau ariannol, ac wedi hwyluso Cynllun Imiwneiddio COVID-19 Gofal Sylfaenol[3] ar gyfer comisiynu gofal sylfaenol.

1 Mae adroddiad UK Government Vaccine Taskforce (VTF): 2020 achievements and future strategy yn rhoi trosolwg o gynnydd ar raddfa'r DU.

2 Cyhoeddwyd y Strategaeth Frechu i Gymru yn wreiddiol ym mis Ionawr 2021, ac fe'i diweddarwyd yn ffurfiol ym mis Chwefror, mis Mawrth a mis Mehefin 2021.

3 Yn y Cynllun Imiwneiddio COVID-19 Gofal Sylfaenol nodir gofynion a'r trefniadau i ad-dalu darparwyr Gofal Sylfaenol sydd wedi ymuno â'r cynllun.

c byrddau iechyd sy'n gyfrifol am gynlluniau brechu lleol, am sefydlu safleoedd brechu torfol drwy gydweithio â phartneriaid lleol, ac am agweddau ar hyfforddiant a staffio. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau canolfannau brechu mewn gofal sylfaenol, a gwasanaethau allgymorth/symudol, ac am nodi'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y grwpiau â blaenoriaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth ar systemau TG meddyg teulu ac ysbyty.

ch Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cyngor arbenigol, data gwyliadwriaeth, effeithiolrwydd brechlynnau a monitro diogelwch, a gwybodaeth ac adroddiadau gan y cyhoedd a chleifion. Mae hefyd yn helpu i ddatblygu polisi hyfforddi, cyfarwyddiadau grwpiau cleifion (PGDs) ac offer.

d mae partneriaid eraill yn gyfrifol am logisteg:

- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Gwasanaeth Gwaed Cymru sy'n gyfrifol am gefnogi'r tîm cydgysylltu fferyllol ar gyfer logisteg traul a storio.
- Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cefnogi'r gwaith o gynllunio, profi a chyflwyno System Imiwneiddio Cymru sy'n ei gwneud hi'n bosibl cydgysylltu grwpiau â blaenoriaeth a threfnu apwyntiadau cysylltiedig, cofnodi brechiadau a sicrwydd ansawdd clinigol fel rheolaeth ar sypiau o frechlynnau. Mae'r system hefyd yn darparu data ar berfformiad.

17 Mae'r Strategaeth Frechu i Gymru yn darparu fframwaith lefel uchel sy'n nodi'r disgwyliadau o ran blaenoriaethu a darparu brechlyn COVID-19. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu cyngor ynghylch grwpiau â blaenoriaeth y Cydbwyllgor Brechu ac Imiwneiddio (**Atodiad 3**). Mae'r strategaeth genedlaethol yn canolbwyntio datblygu'r seilwaith ar gyfer defnyddio brechlynnau a'r trefniadau i gyfathrebu ynghylch cynnydd.

18 Roedd fersiwn gyntaf y strategaeth yn gosod carreg filltir glir ar gyfer y pedwar grŵp cyntaf â blaenoriaeth. Wrth ddiweddaru'r strategaeth ym mis Chwefror 2021, rhoddwyd dyddiadau targed ar gyfer y cerrig milltir a oedd yn weddill (**Dangosyn 1**), gyda'r nod o sicrhau bod 75% yn manteisio ar grwpiau blaenoriaeth 5-9. Drwy'r dull hwn, parhawyd i hoelio sylw'r holl bartneriaid ar nodau amser-dyngedfennol y rhaglen frechu wrth iddi barhau i gael ei gweithredu.

**Dangosyn 1: Prif gerrig milltir presennol y rhaglen frechu**

| | |
|---|---|
| **Carreg Filltir 1** | **Erbyn canol mis Chwefror 2021:** Grwpiau blaenoriaeth 1 - 4<br>Yn amodol ar gyflenwad, y nod yw cynnig dos cyntaf y brechlyn i'r holl breswylwyr a staff mewn cartrefi gofal staff iechyd a gofal cymdeithasol y rheng flaen; rhai sy'n 70 oed neu'n hŷn; ac unigolion sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol. |
| **Carreg Filltir 2** | **Erbyn canol mis Ebrill 2021:** Grwpiau blaenoriaeth 5 - 9<br>Yn amodol ar gyflenwad, nod Llywodraeth Cymru yw cynnig dos cyntaf y brechlyn i'r holl grwpiau blaenoriaeth sy'n weddill. |
| **Carreg Filltir 3** | **Erbyn mis Gorffennaf 2021:** Cynnig dos cyntaf y brechlyn i weddill y boblogaeth o oedolion sy'n gymwys, yn unol â chanllawiau'r JCVI. |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

19 Bydd y rhaglen yn cael ei goruchwylio a'i monitro ar raddfa leol a chenedlaethol, gyda chraffu sylweddol yn digwydd yn rheolaidd ar lefel swyddogion yn ogystal â goruchwyliaeth gan weinidogion. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi diweddariadau rheolaidd[4]. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cadw golwg fanylach ar y sefyllfa, gan gynnwys dadansoddi'r nifer sy'n derbyn brechlyn ar sail amddifadedd, oedran, cefndir ethnig a rhyw.

20 Bydd modelau cyflenwi brechlynnau yn amrywio yn ôl bwrdd iechyd, ac wedi'u seilio'n bennaf ar natur y ddaearyddiaeth a dwysedd y boblogaeth. Mae safleoedd brechu torfol yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd lle ceir dwysedd uwch o boblogaeth, ond mewn ardaloedd gwledig ac anodd eu cyrraedd mae rhai byrddau iechyd wedi mabwysiadu modelau llai yn seiliedig ar safleoedd lleol, sy'n golygu bod modd darparu brechlynnau'n nes at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae rhai byrddau iechyd hefyd yn dibynnu mwy ar ofal sylfaenol nag eraill. Waeth beth fo'u nodweddion daearyddol, mae byrddau iechyd yn defnyddio modelau allgymorth i frechu mewn cartrefi gofal ac wedi sefydlu canolfannau dros dro a symudol (fel gwasanaeth Imbiwlans BIP Bae Abertawe).

4 Mae diweddariadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch brechu ar gael ar ei ddangosfwrdd rhyngweithiol. Caiff diweddariadau Llywodraeth Cymru eu cyhoeddi bob wythnos.

21 I raddau helaeth, mae'r cyfrifoldeb dros gynllunio'r gweithlu wedi'i ddirprwyo i'r byrddau iechyd. Mae grŵp cenedlaethol ar gyfer y gweithlu wedi creu polisi a chanllawiau i ddarparu modelau cynhyrchiant lefel uchel, ac wedi llunio disgrifiadau rôl ar gyfer recriwtio.


22 Llywodraeth y DU sy'n talu'r gost lawn o gaffael brechlynnau. Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido costau cludo a storio yng Nghymru, ac unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â darparu'r brechlynnau'n lleol. Pennodd £34.9 miliwn fel amcangyfrif dros dro o'r costau hyn ar gyfer 2020-21, gan gynnwys amcangyfrif o gost £ £7.8 miliwn ar gyfer offer diogelu personol (PPE). Ar ddiwedd mis Mawrth, roedd costau terfynnol 2020-21 yn £29.3 miliwn,o ganlyniad i gostau sy'n gysylltiedig â PPE yn cael eu hariannu i raddau helaeth drwy ddyraniad cyllideb PPE presennol. . O'r £29.4 miliwn, mae £10.8 miliwn wedi cael ei wario ar staff ychwanegol,£9.54 miliwn wedi'i wario ar y Cynllun Imiwneiddio COVID-19 Gofal Sylfaenol a £0.2 miliwn ar gostau cyfalaf. Mae rhai aelodau o staff wedi'u hadleoli oddi mewn i'w sefydliadau heb greu unrhyw gostau ychwanegol, er bod goblygiadau posibl yn gysylltiedig â hyn o ran y gweithlu yn eu man gwaith gwreiddiol.


23 Ymhlith costau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau ceir costau cludo, llogi safleoedd, cyfarpar diogelu personol a phecynnau o chwistrelli, diogelwch a deunyddiau cyfathrebu. Deellir bod rhai safleoedd brechu wedi'u darparu i'r rhaglen heb greu unrhyw gostau ychwanegol o ran refeniw. Mae hyn yn debygol o newid os bydd angen i'r awdurdod lleol neu bartneriaid eraill gael eu cyfleusterau'n ôl, ac y bydd angen i fyrddau iechyd adleoli i safleoedd eraill y gellid bod angen talu amdanynt. Rhagwelir mai £31.5 miliwn fydd costau'r rhaglen ar gyfer tri mis cyntaf 2021-22 (Ebrill i Fehefin 2021).

## Sut mae'r rhaglen yn perfformio?

24 Yn gyffredinol, ar 31 Mai 2021, roedd canran y boblogaeth o oedolion a oedd wedi derbyn y brechlyn yng Nghymru yn uwch na holl wledydd eraill y DU (**Dangosyn 2**). Cafwyd cynnydd arbennig o dda yng Nghymru o ran rhoi ail ddosau ym mis Mawrth, ond mae Lloegr a'r Alban bellach wedi cyflymu'r broses o ddarparu ail ddosau.

**Dangosyn 2: Canran y boblogaeth o oedolion a oedd wedi derbyn y dos cyntaf a'r ail ddos o frechlyn COVID-19 fesul gwlad, ar 31 Mai 2021.**







Ffynhonnell: Dangosfwrdd Coronafeirws y DU

25 Ceir rhywfaint o amrywio yn y cynnydd ar draws y byrddau iechyd, yn enwedig ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys sy'n gwneud y cynnydd gorau (**Dangosyn 3**). Mae hyn oherwydd cyfuniad o ffactorau ym Mhowys, gan gynnwys cyfran fwy o boblogaeth hŷn a lefel uwch o gyflenwad yn ôl poblogaeth yn sgil maint y sypiau.

**Dangosyn 3: Dosau o'r brechlyn a roddwyd fesul bwrdd iechyd, fel canran o'r boblogaeth o oedolion ar 31 Mai 2021**




Ffynhonnell: Adroddiad Gwyliadwraeth Fanwl ar Raglen Frechu COVID-19, Iechyd Cyhoeddus Cymru

26 Ar 12 Chwefror 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod Carreg Filltir 1 y strategaeth frechu wedi'i chyrraedd. Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd ar 4 Ebrill, fod Carreg Filltir 2 wedi'i chyrraedd. Ffocws y ddwy garreg filltir yw cynnig apwyntiad ar gyfer brechlyn. Nid oes modd gwybod a gafodd pawb a oedd yn gymwys yng ngrwpiau blaenoriaeth 1-9 eu nodi yn y broses trefnu apwyntiadau. Fodd bynnag, cymerodd swyddogion o Lywodraeth Cymru a'r bwrdd iechyd gamau er mwyn helpu i wirio'r sefyllfa, fel cysylltu â chartrefi gofal i sicrhau bod yr holl staff a'r preswylwyr wedi cael cynnig brechlyn. Ar 31 Mai, roedd tua 95.5% o'r rhai yng Ngharreg Filltir 1, ac 87.9% yng Ngharreg Filltir 2 wedi derbyn eu dos cyntaf.

27 Er bod y rhaglen wedi symud yn ei blaen i ganolbwyntio ar Garreg Filltir 3, mae Llywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd yn gweithredu polisi o 'beidio gadael neb ar ôl'. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw un a oedd yn gymwys mewn grwpiau blaenorol nad ydynt eto wedi derbyn brechlyn, waeth beth fo'r rheswm am hynny, hysbysu'r bwrdd iechyd perthnasol a threfnu apwyntiad.

28 Dengys adroddiadau gwyliadwraeth Iechyd Cyhoeddus Cymru fod oddeutu 70% o'r rhai 65 oed a hŷn fel arfer yn derbyn brechlyn y ffliw. Hyd yma, mae cyfanswm o 91.5% yng ngrwpiau blaenoriaeth 1-9 wedi derbyn brechlyn COVID-19, sy'n cymharu'n gadarnhaol â hynny. Mae'r rhesymau dros beidio sicrhau bod 100% yn derbyn y brechlyn yn cynnwys, er enghraifft, pobl sy'n rhy sâl i dderbyn y brechlyn, a'r lleiafrif sydd wedi dewis peidio cael y brechlyn hyd yma. Wrth lunio'r adroddiad hwn, roedd 66.1% yng ngrwpiau blaenoriaeth 1-9 wedi derbyn eu hail ddos, ac roedd gweithrediad y rhaglen frechu ymhlith grwpiau iau yn mynd rhagddo'n dda.

29 Yn **Nangosyn 4** gwelir rhywfaint o amrywio o ran y nifer a dderbyniodd y dos cyntaf yn erbyn grwpiau blaenoriaeth fesul bwrdd iechyd, yn enwedig yn achos grŵp blaenoriaeth 6. Rydym wedi gweld trafodaethau helaeth yn cael eu cynnal ar raddfa genedlaethol er mwyn ymateb i'r heriau o adnabod setiau data poblogaeth perthnasol. Roedd hyn yn cynnwys nodi'r holl rai 16-64 oed a oedd yn wynebu risg glinigol lle bu angen cadarnhau diffiniadau o gyflyrau clinigol, a lle bo gwybodaeth am unigolion wedi'i chynnwys ar wahanol systemau. Bu heriau hefyd wrth adnabod gofalwyr di-dâl nad oeddent wedi cael eu cofnodi ar unrhyw system cyn hynny. Mae hyn yn dangos peth o'r anhawster yn gysylltiedig â defnyddio model blaenoriaethu cymhleth ar gyfer brechu mewn sefyllfa lle nad oes set ddata gyfun ar gyfer y boblogaeth sydd wedi'i chynnal yn ganolog i'w defnyddio i'r perwyl hwnnw.

**Dangosyn 4: Canran y dosau cyntaf a roddwyd ar sail grŵp blaenoriaeth (B), ar 30 Mai 2021.**

| Grŵp blaenoriaeth | | Aneurin Bevan | Betsi Cadwaladr | Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf Morgannwg | Hywel Dda | Powys | Bae Abertawe |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **B1.** | Preswylwyr cartrefi gofal | 97.5 | 98.6 | 98.0 | 96.4 | 98.2 | 96.8 | 98.8 |
| **B2.** | 80 oed + | 96.3 | 96.0 | 94.3 | 95.9 | 96.1 | 97.2 | 96.2 |
| **B3.** | 75-79 oed | 97.0 | 96.5 | 95.9 | 97.1 | 96.6 | 97.2 | 97.3 |
| **B4.** | 16-69 oed ac yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol | 94.2 | 93.8 | 93.2 | 94.7 | 93.9 | 95.7 | 94.4 |
| **B4.** | 70-74 oed | 96.6 | 95.6 | 95.4 | 96.5 | 95.7 | 96.2 | 96.6 |
| **B5.** | 65-69 oed | 94.9 | 94.5 | 93.5 | 95.4 | 94.3 | 95.0 | 95.5 |
| **B6.** | 16-64 oed ac yn wynebu risg glinigol | 88.6 | 86.5 | 88.1 | 88.2 | 86.7 | 90.4 | 87.8 |
| **B7.** | 60-64 oed | 93.6 | 90.6 | 91.0 | 93.0 | 92.2 | 91.6 | 93.3 |
| **B8.** | 55-59 oed | 91.6 | 87.9 | 88.7 | 91.0 | 90.0 | 89.4 | 91.1 |
| **B9.** | 50-54 oed | 89.7 | 87.7 | 86.5 | 90.1 | 87.5 | 88.1 | 89.0 |

Sylwer: Mae B2, B3 a B4 hefyd yn cynnwys data ar gyfer yr unigolion yn y gwahanol grwpiau oedran sydd hefyd yn preswylio mewn cartrefi gofal. Nid yw staff iechyd a gofal rheng flaen na gofalwyr di-dâl wedi’u nodi ar wahân ar lefel y bwrdd iechyd. Yn hytrach na hynny, maent wedi’u cynnwys o fewn y grwpiau oedran perthnasol.

Ffynhonnell: Adroddiad COVID-19 wythnosol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

30 Mae ystyriaethau ynghylch cydraddoldeb hefyd yn peri pryder cynyddol. Mae data Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos amrywio amlwg rhwng gwahanol grwpiau ethnig o ran y ** nifer sy’n derbyn brechlyn, gyda’r niferoedd hynny’n is o fewn y gymuned Ddu yn arbennig (**Dangosyn 5**).

**Dangosyn 5: Y ganran a dderbyniodd ddos cyntaf o frechlyn COVID-19 yn ôl oedran a grŵp ethnig ar 5 Mai 2021**

| Grŵp Ethnig | Gwyn | Du | Asiaidd | Cymysg | Arall |
|---|---|---|---|---|---|
| 80 oed + | 97.2 | 80.7 | 87.3 | 93.1 | 82.5 |
| 75-79 oed | 96.6 | 79.9 | 87.3 | 88.0 | 83.4 |
| 70-74 oed | 94.4 | 76.8 | 86.6 | 84.5 | 78.9 |
| 65-69 oed | 91.3 | 71.9 | 84.3 | 79.4 | 71.7 |
| 60-64 oed | 92.2 | 73.1 | 84.0 | 81.9 | 76.8 |
| 55-59 oed | 89.0 | 68.3 | 82.0 | 77.1 | 68.9 |
| 50-54 oed | 74.1 | 61.4 | 73.4 | 64.8 | 60.2 |

Ffynhonnell: Adroddiad gwyliadwriaeth fanwl misol, gan gynnwys dadansoddiad o gydraddoldeb y ddarpariaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru

31 Yn rhan o'i ddadansoddiad, canfu Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd fod y nifer sy'n derbyn brechlyn yn is mewn cymunedau amddifadus. Er nad yw'r gwahaniaeth yr un mor fawr â'r gwahaniaeth rhwng grwpiau ethnig, mewn rhai grwpiau oedran mae'r nifer sy'n derbyn brechlyn yn amrywio hyd at 5.3% rhwng yr ardaloedd lleiaf a mwyaf amddifadus. O ddadansoddi'r achosion COVID-19 positif dros y 12 mis diwethaf, gwelwyd y bu mynychder yr achosion a'u difrifwch yn uwch ymhlith grwpiau o bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig, a hefyd yn rhai o ardaloedd mwyaf amddifadus Cymru, gyda Merthyr Tudful yn profi'r nifer fwyaf o achosion fesul pen o'r boblogaeth. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Brechu Teg i Gymru. Cyfarfu'r Pwyllgor Brechu Teg am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2021, ac mae'n paratoi cynllun brechu teg.

32 Hyd yma mae brechlynnau wedi'u gwastraffu (a elwir yn frechlynnau anaddas i'w defnyddio) i gyfrif am oddeutu 0.4% o'r holl frechlynnau a gyflenwyd. Ar 31 Mai, roedd hyn yn cyfateb i oddeutu 14,400 o ddosau. Mae gwastraff yn fwy cyffredin yn achos Pfizer-BioNTech, gyda 0.8% o'r dosau'n anaddas i'w defnyddio. Dim ond 0.2% o ddosau Rhydychen-AstraZeneca a dybiwyd yn anaddas, gyda 0.04% am Moderna. Mewn cymhariaeth â hyn, mae GIG yr Alban wedi amcangyfrif bod oddeutu 1.8% o frechlynnau COVID-19 wedi'u gwastraffu[5]. Nid yw gwledydd eraill y DU yn adrodd am frechlynnau a wastraffwyd.

5 Cynllun Gweithredu Rhaglen Frechu COVID-19 yr Alban - Diweddariad Mawrth 2021.

33 Dyma rai rhesymau pam bod brechlynnau'n anaddas i'w defnyddio: wedi methu'r prawf sicrhau ansawdd yn yr archwiliad cychwynnol, wedi methu'r prawf sicrhau ansawdd ar ôl eu paratoi a ffiolau/dosau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes yn y sesiwn frechu. Mae'r gofynion penodol ar gyfer storio, cludo a hyd oes Pfizer-BioNTech ar ôl ei ddadmer wedi achosi heriau.

34 Dyma rai o'r trefniadau i sicrhau cyn lleied â phosib o wastraff:

a cofnodi'r tymheredd fel mater o drefn yn ystod gwahanol gamau cludo i sicrhau bod gofynion storio yn cael eu bodloni o'r ffynhonnell hyd at y safle storio, ac wedyn hyd at y canolfannau brechu.

b defnyddio rhestrau wrth gefn fel bod pobl yn gallu cyrraedd ar fyr-rybudd ar ddiwedd y dydd er mwyn defnyddio unrhyw frechlynnau sydd ar ôl os na fydd pobl yn dod i apwyntiadau sydd wedi'u trefnu. Mae'r dull o gadw rhestrau wrth gefn yn amrywio ar draws y byrddau iechyd, gyda rhai'n cadw rhestrau wrth gefn sydd ar agor i'r holl grwpiau blaenoriaeth tra bo eraill yn eu targedu at grwpiau blaenoriaeth penodol.

c dyrannu brechlyn Pfizer-BioNTech i safleoedd brechu torfol yn bennaf. Ar ôl ei ddadmer, mae oes brechlyn Pfizer-BioNTech yn fyrrach na brechlyn Rhydychen-AstraZeneca, felly mae dyrannu i safleoedd brechu torfol o gymorth i sicrhau bod y brechlyn yn cael ei ddefnyddio yn hytrach na'i fod yn cyrraedd diwedd ei oes.

## Pa ffactorau sydd wedi effeithio ar weithredu'r rhaglen hyd yma?

35 Cyflenwad y brechlynnau yw'r ffactor pwysicaf sydd wedi effeithio ar gyflymder gweithredu'r rhaglen. Mae'r cyflenwad fferyllol masnachol a'r galw byd-eang yn effeithio ar gyflenwad y DU, er bod y cyflenwad hwnnw wedi'i gytuno drwy rwymedigaethau contractio ffurfiol. Fel arfer, bydd Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn cael gwybod fis ymlaen llaw beth yw'r cyflenwad tybiannol disgwyliedig. Fodd bynnag gall hyn newid ar fyr-rybudd, gan gynyddu neu ostwng, felly mae amcanestyniadau dibynadwy yn anodd y tu hwnt i bythefnos ac maent mewn amrywiaeth, gyda senarios achos gorau, realistig a gwaeth gan BEIS

36 Dyma’r heriau o ran y cyflenwad hyd yma:

a atal swp o frechlynnau Pfizer-BioNTech, sef 25,000 o ffiolau, dros dro oherwydd problemau rheoli ansawdd ym mis Ionawr. Mae proses rheoli ansawdd yr MHRA yn sicrhau bod brechlynnau’n ddiogel i’w rhoi.

b gostyngiad ym mis Chwefror yn sgil ailwampio labordai Rhydychen-AstraZeneca a Pfizer-BioNTech yn Ewrop er mwyn cynyddu lefelau cynhyrchiant.

c gostyngiad ym mis Ebrill ar ôl ailflaenoriaethu brechlyn Rhydychen-AstraZeneca a gynhyrchwyd yn India, gan greu pedair wythnos o oedi disgwyliedig.

37 Mae modelau’r gweithlu wedi esblygu ers dechrau’r rhaglen frechu, gyda’r angen i gadw elfen o hyblygrwydd er mwyn ehangu neu leihau gwasanaethau yn gymharol fyr-rybudd mewn ymateb i’r cyflenwad. I ddechrau defnyddiodd yr holl fyrddau iechyd staff iechyd cofrestredig i roi brechiadau. Ychwanegwyd at hyn wedyn drwy’r meddygfeydd teulu, sydd wedi bod yn fodd i gynyddu’r gweithgarwch brechu a’i gynnig yn nes at adref. Mae newidiadau i ddeddfwriaeth y DU hefyd wedi galluogi staff nad ydynt wedi’u cofrestru i gael eu hyfforddi i frechu dan oruchwyliaeth, a dros amser, daeth partneriaid eraill fel y fyddin ac, yn fwyaf diweddar, gweithwyr y gwasanaeth tân ac achub, i helpu i weithredu’r rhaglen. Mae cynlluniau ar waith hefyd i ddefnyddio fferyllfeydd cymunedol, gan lansio’r fferyllfa gyntaf i gynnig brechlyn COVID-19 ym mis Ebrill 2021 yng Nghaerdydd.

38 Mae staff cymorth, staff clinigol a oedd naill ai wedi gadael neu ymddeol, a gwirfoddolwyr hefyd yn helpu mewn safleoedd brechu drwy gyflawni amrywiaeth o rolau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ewyllys da staff sydd wedi ymddeol sydd wedi cytuno i ddod yn ôl i helpu, yn ogystal â gwirfoddolwyr, ond cawsom safbwyntiau cymysg ynghylch pa mor rwydd a buddiol oedd defnyddio’r grwpiau hyn o safbwynt ymarferol. Clywsom fod yn rhaid mynd drwy brosesau beichus er mwyn i staff a oedd wedi ymddeol neu adael allu dychwelyd, nad oedd rhai gwirfoddolwyr ond yn cynnig helpu am gyfnodau byr, a bod safbwyntiau’n amrywio ynghylch yr angen i dderbyn hyfforddiant gorfodol.

39 Bu blaenoriaethu yn unol â pholisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn rhan hanfodol o'r rhaglen hyd yma. Mae bron yr holl boblogaeth (99%) sy'n wynebu'r risg fwyaf o COVID-19 yng ngrwpiau blaenoriaeth 1-9. Mae pob bwrdd iechyd wedi mabwysiadu egwyddorion blaenoriaethu a nodwyd yn y strategaeth frechu genedlaethol. Fodd bynnag, bu pryderon ynghylch amrywio yn y dull o flaenoriaethu ledled Cymru, ac ynghylch y risg y gallai rhai (gan gynnwys staff y GIG) fod wedi derbyn eu brechlyn o flaen eu grŵp blaenoriaeth penodedig. Cododd hyn yn sgil dymuniad i beidio gwastraffu brechlynnau heb eu defnyddio, a'r gwahanol ddulliau o reoli rhestrau wrth gefn. Mae swyddogion o Lywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at y byrddau iechyd er mwyn ceisio safoni'r ymagwedd at restrau wrth gefn. Bu heriau hefyd wrth ddiffinio staff iechyd a gofal cymdeithasol 'y rheng flaen', a allai hefyd olygu bod rhai aelodau o staff wedi derbyn brechlyn yn gynt nag y bwriadwyd.

40 Mae'r ohebiaeth ynghylch blaenoriaethu brechlynnau COVID-19 ar raddfa'r byrddau iechyd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi bod yn gyson ar y cyfan, gan leihau'r risg o negeseuon cymysg. Yn ychwanegol, gwaith a gwblhawyd gan Gynghorau Iechyd Cymuned canfuwyd bod y cyhoedd wedi bod yn fodlon ar y cyfan â'r ohebiaeth a gawsant gan y byrddau iechyd Er hynny, ymddengys fod mwy o bryder yng nghyfnodau cynharach y rhaglen ymhlith pobl:

a a oedd eisiau gwybod pryd y byddant yn cael eu brechu ac ymhle;

b nad oeddent yn deall pam, er enghraifft, nad oedd cwpl yn gallu mynd i'r un ganolfan frechu ar yr un diwrnod; ac

c a oedd yn teimlo bod rhai ac iddynt lai o flaenoriaeth wedi derbyn brechiad o'u blaen.

41 Wrth i'r rhaglen gyflymu, mae llawer o'r pryderon cychwynnol hynny wedi lleihau. Roedd fformat llythyrau gwahodd yn broblem fwy hirdymor. Cynhyrchir y llythyrau hyn yn awtomatig o System Imiwneiddio Cymru ar gyfer unigolion sy'n derbyn gwahoddiad i ganolfan frechu dorfol, ac yn ystod tri mis cyntaf y rhaglen nid oedd modd gwneud rhyw lawer i'w haddasu. Clywsom am bryderon ynghylch y canlynol:

a bod yr un llythyrau'n cael eu defnyddio ar gyfer dosau cyntaf ac ail ddosau. Cawsom enghraifft lle'r oedd unigolyn wedi'i alw'n ôl am ail ddos yn y cyfnod cychwynnol a argymhellwyd o bedair wythnos[6]. Roedd yr unigolyn yn tybio ei fod wedi cael llythyr am y dos cyntaf eto drwy wall, felly fe'i hanwybyddodd.

b fformat y llythyrau, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio am yn ail dros amryw o dudalennau, gan amharu ar eglurder y llythyr a chreu ansicrwydd ynghylch sut i fynegi pryder neu aildrefnu apwyntiad.

6 Roedd canllawiau cychwynnol y JCVI yn argymell y dylid rhoi ail ddos o frechlyn COVID-19 bedair wythnos ar ôl y dos cyntaf. Newidiwyd hyn yn ddiweddarach i 12 wythnos ym mis Ionawr 2021.

42 Mae fformat llythyrau gwahoddiad wedi'i ddatrys bellach o ran defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg, ond mae angen cyfleu'n gliriach mai gwahoddiad ar gyfer yr ail ddos yw'r ail lythyr.

## Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd yn y dyfodol?

43 Mae'r rhaglen frechu yng Nghymru wedi mynd rhagddi'n eithriadol o dda, ond mae llawer ar ôl i'w wneud. Mae angen tua 4.5 miliwn o ddosau i roi dau ddos i amddiffyn 90% o'r boblogaeth o oedolion yng Nghymru. Ar y gyfradd bresennol, a chyda 3.3 miliwn o ddosau wedi'u cwblhau ar 31 Mai, gallai hyn olygu na fydd ail ddosau ar gyfer gweddill y boblogaeth o oedolion wedi'u cwblhau hyd fis Medi. Ochr yn ochr â hyn, ceir trafodaeth gynyddol ynghylch rhaglen o frechiadau atgyfnerthu yn yr hydref. Mae'n debygol mai ychydig o seibiant a geir rhwng gorffen brechu'r boblogaeth o oedolion sy'n weddill a chynllunio cam nesaf posibl y rhaglen. Mae hyn i gyd yn tynnu sylw at yr angen i ddatblygu cynllun tymor hwy ar gyfer gweithredu'r rhaglen frechu sy'n edrych ymhellach i'r dyfodol ac yn symud y tu hwnt i'r presennol.

44 Mae'n debygol y bydd y cyflenwad o frechlynnau yn parhau i achosi her sylweddol. Er bod brechlynnau newydd hefyd yn cael eu rhyddhau, po fwyaf sy'n cael eu defnyddio, y mwyaf yw'r her i gydgysylltu'r broses o'u rhoi. Mae'r gofynion storio, cludo, paratoi, hyd oes a hyfforddi yn amrywio yn dibynnu ar y brechlyn. Gallai newidiadau i ganllawiau'r JCVI hefyd achosi heriau. Er enghraifft, gallai'r canllawiau diweddar i gynnig opsiwn arall i bobl dan 40 oed yn lle brechlyn Rhydychen-AstraZeneca[7]arafu gweithrediad y rhaglen os nad oes brechlynnau eraill posibl ar gael. Wrth i fwy o frechlynnau ddod i rym yng Nghymru, bydd cymhlethdod yn cynyddu ymhellach yn ogystal â gwastraff ac effeithlonrwydd gweithredol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r risg hon ac yn gweithio i'w lliniaru.

7 Datganiad y JCVI ar Ddefnyddio brechlyn COVID-19 AstraZeneca: 7 Mai 2021

45 Mae model cyfredol y gweithlu yn bodloni anghenion y rhaglen frechu. Fodd bynnag, wrth i wasanaethau eraill ailgychwyn a'r economi ehangach ailagor, bydd angen datrysiad cynaliadwy o ran y gweithlu, gan gadw'r elfen o hyblygrwydd, ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hwy. Dyma rai o'r prif faterion:

a mae rhai aelodau o staff y byrddau iechyd sy'n cefnogi'r rhaglen frechu wedi cael eu hadleoli o'u rôl arferol. Pan fydd gwasanaethau eraill yn ailgychwyn, bydd pwysau cystadleuol o fewn y gweithlu wrth i staff gael eu galw'n ôl i'w rolau craidd.

b rydym wedi clywed bod y gweithlu'n flinedig, a bod llawer wedi gweithio y tu hwnt i'w dyletswydd mewn sawl cyfnod yn ystod y pandemig. Ni fydd hyn yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Wrth i'r economi ailagor ac wrth lacio cyfyngiadau COVID rydym hefyd wedi clywed bod y cyflenwad o wirfoddolwyr yn gostwng.

c mae'r potensial i gyfuno rhaglen brechiadau atgyfnerthu COVID-19 â'r rhaglen imiwneiddio ffliw arferol o dan ystyriaeth, neu a oes angen clinigol i gadw'r naill a'r llall ar wahân. Beth bynnag fydd yn digwydd, ceir goblygiadau o ran datblygu'r gweithlu i ateb y galw.


46 Mae llawer o safleoedd a ddefnyddiwyd fel canolfannau brechu wedi cael eu darparu i fyrddau iechyd drwy ewyllys da partneriaid. Caewyd llawer o'r lleoliadau hyn oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Wrth i'r cyfyngiadau lacio, bydd sefydliadau bellach yn ystyried y potensial i ailagor y lleoliadau er mwyn parhau i fod yn fasnachol hyfyw, ee, Venue Cymru yn Llandudno. Bydd hynny'n digwydd cyn y rhagwelir i'r rhaglen gyfredol ddod i ben. Mae'n debygol y bydd angen i fyrddau iechyd ystyried opsiynau cost-effeithiol eraill i'w defnyddio fel canolfannau brechu, a hynny'n gymharol fyr-rybudd, er mwyn cwblhau'r rhaglen gyfredol. Bydd angen iddynt hefyd ystyried sut i gynnal rhaglen frechu COVID-19 ar gyfer y tymor hwy ochr yn ochr â'r rhaglen imiwneiddio ehangach.

47 Bydd gwahaniaethau i'w cael o hyd rhwng modelau brechu, er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth leol a nodweddion daearyddol. Serch hynny, bydd rhai modelau'n sicrhau mwy o effeithlonrwydd nag eraill. Mewn arsylwadau cynnar gan bartneriaid o'r fyddin fu'n ymwneud â'r rhaglen frechu, nodwyd nad oedd safleoedd brechu bob amser yn defnyddio staff cymwys yn y modd mwyaf effeithlon, a bod y gyfradd frechu fesul awr fesul aelod staff yn amrywio rhwng 2.6 a 10.2. Mae'r amrywiad hwn mewn cyfraddau brechu yn haeddu ymchwiliad pellach gan swyddogion gweithredol, ond bydd yr amrywiadau lleol, yn rhannol, oherwydd y cyflenwad a'r math o frechlyn. Mae angen i fyrddau iechyd a Llywodraeth Cymru gadw ffocws ar sicrhau bod modelau gwasanaeth yn cynnig gwerth am arian. Bydd hyn hefyd o gymorth i lunio modelau a dylunio rhaglenni'r dyfodol.

48 Wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, ceir pryder cynyddol fod y boblogaeth iau yn llai tebygol o dderbyn cynnig am frechlyn. Mae'r byrddau iechyd yn asesu ac yn addasu modelau brechu'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb, ac yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i ddeall y rhesymau dros betruster brechu, a rhoi camau gweithredu ar waith. Mae hyn wedi cynnwys rhai camau cadarnhaol i ymgysylltu ag arweinwyr cymunedol mewn cymunedau ethnig neilltuol, ac aelodau o gymuned y teithwyr. Mae angen i fyrddau iechyd a phartneriaid gadw'r ffocws hwn i feithrin perthnasoedd ag ymddiriedaeth a chynyddu hyder yn y rhaglen frechu. Mae'n debygol y bydd angen defnyddio llawer o adnoddau os bydd Llywodraeth Cymru a'r GIG eisiau cynnal y gyfradd gadarnhaol sydd wedi derbyn brechlyn hyd yma ar y cyfan wrth frechu gweddill y boblogaeth, ac er mwyn sicrhau bod y nifer sy'n derbyn ail ddos yr un mor uchel â'r nifer a dderbyniodd y dos cyntaf.

49 Yn dilyn gostyngiad ar ddiwedd mis Mawrth a dechrau mis Ebrill, mae nifer yr unigolion nad ydynt yn dod i'w hapwyntiad wedi cynyddu eto (**Dangosyn 6**). Deellir bod diffyg presenoldeb yn fwy ar gyfer brechlynnau dos cyntaf, na brechlynnau ail ddos. Mae peidio dod i apwyntiad yn effeithio ar gyflymder y rhaglen ac yn creu diffyg effeithlonrwydd o ran costau, oherwydd gall olygu nad ydym yn gwneud defnydd digonol o staff. Mae'r trefniadau i alw'r rhai ar restrau wrth gefn ar fyr-rybudd yn helpu i lenwi slotiau gwag, ond wrth i'r ganran o'r boblogaeth sydd heb dderbyn brechiad ostwng, bydd llenwi'r slotiau hyn yn troi'n fwy o her. Mae'r cyfraddau diffyg presenoldeb yn amrywio rhwng byrddau iechyd, gyda rhai o'r lefelau uchaf i'w cael ym Myrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro a Bae Abertawe.

**Dangosyn 6: Nifer y bobl a wahoddwyd i gael brechiad ond nad oeddent yn bresennol yn ôl diwrnod hyd at ddiwedd Mai 2021**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodyn: bwriad y data a ddefnyddir at ddibenion gwybodaeth reoli fewnol ac felly nid yw wedi'i ddilysu

50 Roedd oedi cyn derbyn llythyrau gwahoddiad, problemau wrth gysylltu â rhifau cyswllt i aildrefnu apwyntiadau, a pheidio mynd i apwyntiad oherwydd pryderon ynghylch diogelwch brechlynnau ymhlith rhai o'r rhesymau pam na ddaeth pobl i'w hapwyntiad. Mae anawsterau wrth geisio cael amser o'r gwaith i fynd i slotiau apwyntiad ac achosion o wrthdaro â gwyliau wrth i gymdeithas agor yn fwyfwy tebygol o gynyddu'r achosion o ddiffyg presenoldeb yn y misoedd nesaf. Dyma gyfle i fyfyrio ar y dull cyfredol o drefnu apwyntiadau, gan gynnwys ystyried systemau ar y we er mwyn galluogi pobl i drefnu eu hapwyntiadau eu hunain. Bydd hyn o gymorth i greu hyblygrwydd a lleihau'r broses feichus lle bydd angen i bobl aildrefnu neu y bydd angen i staff ganfod pobl i lenwi'r slotiau. Mae'r rhaglen wrthi'n gweithio ar sefydlu hyn gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

51 Yn dilyn 'Adolygiad Asesu Rhaglen' a gynhaliwyd yn ddiweddar ym mis Mawrth, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried heriau'r dyfodol, a sut y bydd yn cryfhau'r trefniadau i reoli'r rhaglen yn genedlaethol. Hyd yma, ychydig o gapasiti canolog ychwanegol a oedd ar gael i ysgogi'r rhaglen ar raddfa genedlaethol, a dibynnwyd ar nifer cymharol fach o swyddogion oddi mewn i Lywodraeth Cymru ac ar draws y GIG i arwain y gweithrediad y rhaglen. Roedd trefniadau rheoli'r rhaglen frechu wrth ddechrau ei gweithredu yn drwsgl braidd gyda Gormod o geisiadau cynnar gan Fyrddau Rhanddeiliaid oherwydd diddordeb dwys.  Mynychodd dros 60 o bobl o wahanol gefndiroedd proffesiynol.Gwnaed newidiadau i dynhau'r trefniadau hyn, a deellir bod mwy o newidiadau wedi'u cynllunio i symleiddio'r broses o reoli a llywodraethu'r rhaglen ymhellach.

52 Er bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r heriau a amlinellwyd yma wrth weithredu cam nesaf y rhaglen frechu, dylid cydnabod bod y rhaglen wedi cael ei chynnal ar raddfa a chyflymder nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen yng Nghymru Mae llawer i'w ddathlu o ran hynny, ac mae cymaint o wersi cadarnhaol i'w dysgu wrth gyflawni rhaglenni eraill, ac yn rhan o'r agenda imiwneiddio ehangach.

# Atodiadau

1 Ein hymagwedd a'n dulliau archwilio

2 Brechlynnau COVID-19 y DU a brynwyd a'u statws ar 1 Mehefin 2021

3 Trefn blaenoriaeth brechu Llywodraeth Cymru (ar sail argymhelliad y JVCI)

# 1 Ein hymagwedd a'n dulliau archwilio

### Ymagwedd archwilio

Ein prif ffocws oedd y rhaglen frechu genedlaethol, a'r broses o ddarparu brechlynnau yng Nghymru. Buom yn edrych ar y modd y darparwyd brechlynnau gan dri bwrdd iechyd, er mwyn cael dealltwriaeth o leoliadau gwledig a threfol. Buom yn ystyried trefniadau'r rhaglen genedlaethol, perfformiad y rhaglen, a'r ffactorau neu'r problemau sydd wedi effeithio ar ei gweithrediad.

Nid oedd ein gwaith yn cynnwys trefniadau brechu a weinyddir gan lywodraeth y DU.  Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi archwilio paratoadau llywodraeth y DU am frechlynnau COVID-19 posibl[8]. Buom yn adolygu'r adroddiad hwnnw'n sail i'n dealltwriaeth ehangach ynghylch caffael, contractio a chostau'r brechlynnau, a weinyddir drwy'r DU.

### Dulliau archwilio

Defnyddiwyd ystod o ddulliau gennym:

- **adolygu dogfennau:** buom yn adolygu strategaeth genedlaethol, canllawiau, cyhoeddiadau ac adroddiadau diweddaru Llywodraeth Cymru, cynlluniau brechu'r byrddau iechyd ac adroddiadau ar berfformiad lleol a chenedlaethol. Buom hefyd yn adolygu papurau a chofnodion y bwrdd rhanddeiliaid a bwrdd gweithredu'r rhaglen frechu genedlaethol.
- **arsylwi:** buom yn bresennol yn amryw o gyfarfodydd y bwrdd rhanddeiliaid a bwrdd gweithredu'r rhaglen frechu genedlaethol fel arsyllwyr.
- **cyfweliadau lled-strwythuredig:** buom yn cyfweld â swyddogion o Lywodraeth Cymru a oedd yn ymwneud â'r rhaglen frechu, aelodau dethol o fwrdd gweithredu'r rhaglen frechu genedlaethol, ac uwch reolwyr o dri bwrdd iechyd a oedd yn ymwneud â sefydlu safleoedd brechu a darparu brechlynnau.
- **dadansoddi data:** buom yn adolygu'r data sydd ar gael ar gynnydd brechlynnau dos cyntaf ac ail ddos yng Nghymru ac yng ngwledydd eraill y DU. Gwnaethom ystyried gwastraff brechlynnau a chostau brechu, mewn perthynas â chostau cyflogau, costau ar wahân i gyflogau, a maint y costau'n gysylltiedig â brechu mewn lleoliadau gofal sylfaenol.

8 Investigation into preparations for potential COVID-19 vaccines, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Rhagfyr 2020

Ni allwn gyflwyno data ar gyfer yr un cyfnod drwy gydol yr adroddiad hwn. Tynnwyd y data yn yr adroddiad hwn o wahanol ffynonellau, ac fe'u cyhoeddwyd ar adegau gwahanol. Nid yw gwybodaeth fanwl am argaeledd brechlynnau, stoc, na'r defnydd ohonynt fesul gweithgynhyrchydd ar gael i'r cyhoedd am resymau'n gysylltiedig â chyfrinachedd masnachol.

Cwblhawyd ein gwaith maes rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2021.

# 2 Brechlynnau COVID-19 y DU a brynwyd a'u statws ar 1 Mehefin 2021

| Brechlyn | Nifer y dosau | Statws |
|---|---|---|
| Rhydychen-AstraZeneca | 100 miliwn | Cymeradwywyd ar 30 Rhagfyr 2020, a'i ddefnyddio ledled Cymru o fis Ionawr 2021 |
| Janssen | 20 miliwn | Cymeradwywyd 28 Mai 2021 |
| Pfizer-BioNTech | 100 miliwn | Cymeradwywyd ar 2 Rhagfyr 2020, a'i ddefnyddio ledled Cymru o fis Ionawr 2021 |
| Moderna | 17 miliwn | Cymeradwywyd 8 Ionawr 2021 ac fe'i defnyddir o fis Ebrill 2021 ym Myrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Hywel Dda |
| GlaxoSmithKline / Sanofi Pasteur | 60 miliwn | Treialon cam 3 |
| Novavax | 60 miliwn | Data o gam 3 yn galonogol o ran diogelwch ac effeithiolrwydd |
| Valneva | 100 miliwn | Treialon cam 3 |
| CureVac | 50 miliwn (archeb gychwynnol) | Treialon cam 3 |
| **Cyfanswm** | **507 miliwn** | |

Ffynhonnell: Lywodraeth y DU, a ddiweddarwyd yn seiliedig ar wybodaeth gan Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain a cyhoeddiad diweddar GOV.UK

# 3 Trefn blaenoriaeth brechu Llywodraeth Cymru (ar sail argymhelliad y JVCI)

| | Grwpiau blaenoriaeth brechu |
|---|---|
| 1 | Pobl sy'n byw mewn cartref gofal i oedolion hŷn a'r staff sy'n gofalu amdanynt |
| 2 | Pawb sy'n 80 oed neu'n hŷn a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar y rheng flaen |
| 3 | Pawb sy'n 75 oed neu'n hŷn |
| 4 | Pawb sy'n 70 oed neu'n hŷn a phobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol (a elwir yn grŵp sy'n "cysgodi") - bydd pobl yn y grŵp hwn wedi derbyn llythyr yn y gorffennol oddi wrth y Prif Swyddog Meddygol yn eu cynghori i gysgodi. |
| 5 | Pawb sy'n 65 oed neu'n hŷn |
| 6 | Pob unigolyn 16 i 64 oed â chyflyrau iechyd sylfaenol* sy'n golygu eu bod yn wynebu risg uwch o glefyd difrifol a marwolaeth |
| 7 | Pawb sy'n 60 oed neu'n hŷn |
| 8 | Pawb sy'n 55 oed neu'n hŷn |
| 9 | Pawb sy'n 50 oed neu'n hŷn |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Archwilio Cymru
Audit Wales

Audit Wales

24 Cathedral Road

Cardiff

CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales